

Ymgyrch Beaconport.

Ceisio Cyfiawnder. Amddiffyn Plant. Rhoi Cymorth i Oroeswyr

Mae Ymgyrch Beaconport yn ymgyrch plismona cenedlaethol sydd wedi'i sefydlu yn dilyn argymhellion gan Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Casey i Gam-drin a Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol ar sail Grŵp.

Dan arweiniad yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, mae'r ymgyrch yn adolygu ymchwiliadau a gaewyd yn flaenorol i gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol ar sail grŵp a riportiwyd yng Nghymru a Lloegr rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Mawrth 2025. Nod yr ymgyrch yw nodi cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder, cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, cryfhau diogelu a gwella ymatebion i gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol ar sail grŵp yn y dyfodol.

? I gael rhagor o wybodaeth am Ymgyrch Beaconport, cysylltwch â'ch Pwynt Cyswllt Ymgyrch Beaconport lleol neu ewch i: iamready.org.uk

Pa achosion sy'n cael eu hadolygu?

Mae Ymgyrch Beaconport yn adolygu ymchwiliadau a gaewyd yn flaenorol sy'n bodloni meini prawf cenedlaethol cytûn, gan gynnwys:

- ✓ Achosion o gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol a gafodd eu riportio rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Mawrth 2025.
- ✓ Achosion lle'r oedd dau neu fwy o bobl dan amheuaeth yn rhan o'r digwyddiad.
- ✓ Achosion lle'r oedd o leiaf un dioddefwr neu oroeswr.
- ✓ Achosion lle cafwyd troseddau corfforol (gellir cynnwys achosion yn cynnwys cyfuniad o gam-drin corfforol ac ar-lein hefyd).
- ✓ Cafodd yr ymchwiliad ei derfynu gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron gyda phenderfyniad o 'Dim Camau Gweithredu Pellach'.

Lle mae adolygiadau'n nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu pellach, gellir atgyfeirio achosion i gael adolygiad llawn o'r dystiolaeth a gellir eu hystyried ar gyfer ail ymchwiliad posibl.

**OPERATION
BEACONPORT**

 **NCA**
National Crime Agency

 **NPCC**
National Police Chiefs' Council

 **Crown
Prosecution
Service**